**Eitem ar yr agenda: 5**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**PANEL GWEITHREDOL**

**25 EBRILL 2005**

**Y TREFNIADAU AR GYFER YMDRIN Â GWERTH GORAU YN Y DYFODOL**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

1 Ystyried argymhelliad gan y Pwyllgor Gwerth Gorau y dylid trosglwyddo ei gyfrifoldebau i'r Panel Gweithredol.

**Cefndir**

2 Ers i'r ddeddfwriaeth ar werth gorau gael ei rhoi ar waith, mae'r awdurdod wedi bod â phwyllgor pwrpasol i ymdrin â chyfrifoldebau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, gan gynnwys cymeradwyo'r cynllun gwella blynyddol, ystyried astudiaethau ac adroddiadau gwerth gorau, monitro dangosyddion perfformiad ac ati.

3 Mae datganoli'r cyfrifoldeb am y gwasanaeth tân ac achub i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn golygu y bydd yr awdurdod yn dod o fewn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Ers derbyn y cyfrifoldeb yn Nhachwedd 2004, mae Llywodraeth y Cynulliad eto i roi deddfwriaeth neu gyfarwyddyd manwl ar gyfer awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Felly, nid yw'r union ofynion ar gyfer 2005-06 a'r blynyddoedd dilynol yn hysbys eto. Er hynny, un o elfennau canolog y Cynllun Integredig Rheoli Risg yw ystyried sut fyddai'r ffordd orau i'r awdurdod gyflwyno gwasanaethau i wella diogelwch tân cymunedol. Mae hyn yn siŵr o olygu herio'r hyn mae'r awdurdod yn ei wneud a chwestiynu effeithlonrwydd, cost-effeithiolrwydd, ansawdd gwasanaeth ac ati – mewn geiriau eraill, yr union bethau sydd hefyd yn y ddeddfwriaeth gwerth gorau. Y Panel Gweithredol sy'n arwain y gwaith ar y Cynllun Risg, cyn ei fabwysiadu gan yr awdurdod llawn bob blwyddyn.

4 Yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth, bu'r Pwyllgor Gwerth Gorau yn ystyried y sefyllfa ac argymhellodd y dylid trosglwyddo ei gyfrifoldebau i'r Panel Gweithredol. Byddai newid o'r fath yn gofyn am gydsyniad yr awdurdod tân yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, a newid i gylch gwaith y Panel.

**Cyngor**

5 O ystyried y fframwaith cyfansoddiadol a chyfreithiol newydd y mae'r awdurdod yn gweithredu o'i fewn, a gan fod gwerth gorau wedi datblygu ac aeddfedu ers dyfodiad y ddeddfwriaeth wreiddiol, mae'n amserol i adolygu ai'r Panel Gweithredol ddylai ymdrin â'r cyfrifoldebau dan Ddeddf 1999 yn y dyfodol. O ganlyniad i hynny, byddai'r Pwyllgor Gwerth Gorau yn dod i ben. Byddai hyn yn golygu arbedion bychain i'r awdurdod o ran y costau sy'n gysylltiedig â chynnal cyfarfodydd i'r ddau bwyllgor ar wahân, megis costau teithio i aelodau.

**Argymhelliad**

6 Bod y Panel yn argymell i'r awdurdod tân y dylai'r Pwyllgor Gwerth Gorau ddod i ben, ac y dylid newid cylch gwaith y Panel i adlewyrchu hyn.